POLISI AR GYFER PROFI MYFYRWYR I FYNYCHU'R

ADDASRWYDD BRIFYSGOL

1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu corff amrywiol o fyfyrwyr, fel adnodd addysgol ar gyfer pawb ac fel rhan gynhenid o'r profiad dysgu yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr gyda chyflyrau meddygol dros dro neu hirdymor sy'n dymuno cyflawni eu potensial deallusol a chynyddu eu rhagolygon gyrfa drwy gyfrwng eu dewis o raglen astudio.

1.2 Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w myfyrwyr allu byw yn annibynnol, gyda pharch, ac mewn cytgord ag eraill; mae Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol yn mynnu nad yw'n dderbyniol i fyfyrwyr ymddwyn mewn ffyrdd sy'n effeithio'n andwyol ar eraill neu yn achosi perygl iddynt.

1.3 Nid yw bodolaeth problemau meddygol neu broblemau eraill yn dileu cyfrifoldeb myfyrwyr dros eu haddysg na'u cyfrifoldeb tuag at aelodau eraill y gymuned academaidd. Yn unol â rheolau a rheoliadau'r Brifysgol ar "Hepgor Gwybodaeth o Bwys neu ei Cham-gyfleu wrth Gyflwyno Cais neu ar ôl Cofrestru" mae gofyn i fyfyrwyr ddatgan unrhyw salwch neu glefyd sy'n debyg o ymyrryd ar eu hastudiaethau neu ar iechyd myfyrwyr eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y Brifysgol mewn sefyllfa i gyflawni ei dyletswydd i ofalu am iechyd, diogelwch a lles pob un o'i myfyrwyr ac i alluogi i addasiadau rhesymol gael eu gwneud i gefnogi myfyrwyr yn eu hastudiaethau yn unol â Deddfwriaeth Cydraddoldeb.

2 Pwrpas

Mae'r weithdrefn ganlynol wedi ei llunio i:

- nodi'r ymateb priodol gan staff academaidd a gwasanaethau cymorth mewn amgylchiadau lle'r ystyrir nad yw gweithredu gweithdrefnau disgyblu yn addas, yn arbennig, oherwydd y dylid rheoli yn hytrach na chosbi ymddygiad y myfyriwr;

- ddarparu defnydd cydgysylltiedig a phriodol o gymhwysedd proffesiynol o fewn i gymuned y Brifysgol i ymateb i sefyllfaoedd o'r fath;

- ddarparu cyfarwyddyd ar y ffordd o weithredu i'w dilyn pan yw'n ymddangos bod cyflwr iechyd meddwl myfyriwr yn ei rwystro ef/hi rhag elwa ar y ddarpariaeth addysgol ar gyfnod arbennig (er gwaethaf unrhyw addasiadau rhesymol) neu pan fydd yn cael effaith andwyol ar les myfyrwyr/staff sydd o'i gwmpas;

- alluogi staff i ddynodi cyfyngiadau'r gefnogaeth a'r addasiadau rhesymol y gallant hwy fel unigolion a'r Brifysgol fel cymuned eu darparu;

- sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei darparu ar gyfer myfyrwyr a staff sydd wedi eu heffeithio neu sydd wedi bod yn gweithio gyda myfyriwr yn yr amgylchiadau a grybwyllwyd uchod.

3 Cwmpas

3.1 Mae'r Brifysgol yn cymryd ei dyletswydd i ofalu am bob un o'i haelodau o ddifrif, ac ni ddylid cymysgu rhwng y Polisi Addasrwydd i Fynychu a pholisïau penodol y Brifysgol yn ymwneud â dyletswydd cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, disgyblu, perfformiad academaidd neu fynychu sy'n cael sylw mewn man arall.

3.2 Yn gyffredinol, dylid defnyddio'r polisi hwn ar gyfer achosion lle ystyrir bod ymddygiad, amhariad neu berygl y myfyriwr iddo'i hun neu i eraill o natur ddifrifol neu o natur a allai fod yn ddifrifol, a lle bo'r myfyriwr yn amharod i newid eu hymddygiad neu eu gweithredoedd, neu'n methu â gwneud hynny. Lle bo hynny'n bosibl, dylid troi yn y lle cyntaf at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr cyn gweithredu'n ffurfiol.

3.3 Bwriedir y Polisi Addasrwydd i Fynychu i ddarparu fframwaith effeithiol lle, o ganlyniad i afiechyd meddwl neu anabledd mae ymddygiad myfyriwr yn cael effaith andwyol ar ei iechyd, ei ddiogelwch, ei les neu ei gynnydd academaidd ef ei hun neu bobl eraill ac yn gofyn am reolaeth gadarnhaol yn hytrach na chamau disgyblaethol. Dylid ei ystyried fel un system ymhlith eraill i warchod uniondeb dysgu, cyrhaeddiad academaidd a phrofiad myfyriwr ac i sicrhau bod cefnogaeth effeithiol ac addas ar gael i'r sawl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl.

3.4 Ceidw'r Brifysgol yr hawl i ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr neu gynnydd academaidd i ymateb i ymddygiad sy'n deillio o broblemau iechyd meddwl, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos.

3.5 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig sy'n astudio ar y Campws, ac mae'n cwmpasu pob agwedd o fywyd ar y campws, gan gynnwys cynnydd academaidd ac ymddygiad yn neuaddau'r Brifysgol.

3.6 Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro ymateb priodol mewn argyfwng os credir bod myfyrwyr ar fin peryglu eu bywyd eu hunain neu fywydau eraill – gweler 4 isod.

4 Argyfyngau

4.1 Pan fydd ymddygiad myfyriwr yn golygu perygl dybryd iddo'i hun neu i eraill, dylid cysylltu â'r Gwasanaethau Brys drwy ffonio 999. Dylid cysylltu hefyd â Gwasanaethau Brys y Brifysgol drwy ffonio 222. Dylid yn ddiweddarach hysbysu Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr (est. 1761) o fanylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd drwy lenwi Ffurflen Adroddiad am Ddigwyddiad ac Iechyd Galwedigaethol: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/procedurespracticesforms/en-incident+occ-health-rep-new3.pdf

4.2 Os bernir ei bod yn ddiogel i wneud hynny, dylai staff neu fyfyrwyr a oedd yn dystion i ymddygiad y myfyriwr aros yn y safle nes bydd y gwasanaethau brys wedi cael eu briffio.

4.3 Yn dilyn argyfwng, bydd y Gwasanaeth Lles yn sicrhau eu bod yn cysylltu â'r myfyriwr.

4.4 Mae'n bosibl y bydd gofyn atal astudiaethau'r myfyriwr dros dro a heb ragfarnu, ar gyfer adferiad. Yn unol â pholisi cyffredinol y Brifysgol, rhaid i ataliadau o dan y categori hwn gael eu hawdurdodi gan y Dirprwy Is-Ganghellor a Phrif Swyddog Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr.

5 Rôl Cymorth i Fyfyrwyr / Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

5.1 Mae Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn cyflenwi ystod o wasanaethau yn uniongyrchol i fyfyrwyr. Mae hyn yn gymorth i'r Brifysgol gwrdd â'i chyfrifoldebau cyfreithiol ac i ehangu dyheadau mynediad ac i hyrwyddo mynediad annibynnol a chyfartal i fyfyrwyr i'r gymuned ddysgu. Mae Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr hefyd yn darparu cyngor i staff a myfyrwyr ynglŷn â'r ystod o gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr drwy'r Brifysgol i gyd ac ymatebion priodol i ystod o faterion yn ymwneud â myfyrwyr.

5.2 Mewn achosion lle mae addasrwydd myfyriwr i fynychu/astudio yn destun pryder, rôl Gwasanaethau Lles y Myfyrwyr o fewn i Wasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yw cydgysylltu ymateb y Brifysgol i fyfyrwyr sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl ac i gynghori staff/myfyrwyr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael a'r camau nesaf. Dylid nodi bod y gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Lles y Myfyrwyr yn ategu yn hytrach nag yn cymryd lle gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau statudol. Mewn ymateb i sefyllfaoedd o'r fath gall y Gwasanaethau Lles gyfeirio myfyrwyr neu staff sy'n ceisio cymorth at asiantaethau allanol neu statudol fel sy'n addas.

5.3 Nid yw Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn darparu gwasanaeth datrys argyfyngau. Mae'r rôl hon yn rhan briodol o gylch gwaith y gwasanaethau statudol perthnasol. Dim ond drwy feddyg teulu'r myfyriwr, meddyg teulu y tu allan i oriau neu Adran Damweiniau ac Argyfyngau Ysbyty Bronglais y mae'r gwasanaethau hyn ar gael.

6 Arwyddion Posibl o Bryder ynghylch Addasrwydd i Fynychu'r Brifysgol

6.1 Gellir codi cwestiynau ynghylch addasrwydd myfyriwr i fynychu'r Brifysgol o ganlyniad i ystod eang o amgylchiadau, yn cynnwys:

- Mae trydydd parti (megis rhywun sy'n rhannu fflat, aelod o'r cyhoedd, darparwr lleoliad neu aelod o'r proffesiwn meddygol) yn codi pryderon difrifol am les neu ymddygiad myfyriwr sy'n awgrymu bod angen trafod addasrwydd y myfyriwr i fynychu'r Brifysgol;
- Mae'r myfyriwr wedi datgelu gwybodaeth i aelod o staff sy'n awgrymu bod angen trafod ei addasrwydd i fynychu'r Brifysgol;

- Mae cymeriad y myfyriwr yn awgrymu bod angen trafod problemau iechyd meddwl sylfaenol (er enghraifft, mae bellach yn fewnblyg, yn ymosodol, wedi cynhyrfu, yn bigog, yn amrywio o ran ei hwyliau neu'n dangos arwyddion o iselder);
- Ymddygiad a fyddai fel arall yn cael ei drin fel mater disgyblu ond sy'n cael ei ystyried yn ganlyniad i broblem iechyd meddwl sylfaenol;
- Nid yw perfformiad academaidd neu ymddygiad corfforol y myfyriwr yn dderbyniol; fe'i trafodwyd yn unol â gweithdrefnau disgyblu neu gynnydd academaidd ond mae'n cael ei ystyried yn arwydd o broblem iechyd meddwl sylfaenol a lle bo'r myfyriwr yn amharod i newid eu hymddygiad neu eu gweithredoedd, neu'n methu â gwneud hynny.

7 Pryderon sy'n Ymgodi

7.1 Cyn i'r polisi hwn gael ei weithredu a phan ddaw'r pryderon cychwynnol neu gymedrol ynglŷn ag iechyd, lles neu ymddygiad myfyriwr i'r amlwg ond nad ydynt yn achosi argyfwng ar y pryd, neu os nad yw'n ymddangos eu bod yn cael effaith sylweddol ar y myfyriwr ei hun neu eraill, y peth gorau yw gadael i aelod o'r staff y mae'r myfyriwr yn gyfarwydd ag ef ddelio â'r mater yn lleol, neu gyfeirio'r myfyriwr at y Wasanaeth Lles y Myfyrwyr i archwilio'r cymorth sydd ar gael. Mae'r cyswllt hwn y tu allan i'r Polisi Addasrwydd i Fynychu.

7.2 Dylai'r drafodaeth anffurfiol hon fod yn gyfle i'r myfyriwr a'r aelod o staff gyflwyno sylwadau ar eu dirnadaeth o'r sefyllfa; dylid gwneud y myfyriwr yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl i'w astudiaethau ac ymchwilio i/rhoi ar waith unrhyw gymorth a all fod yn ddefnyddiol.

7.3 Os yw'n well gan y myfyriwr drafod y mater gydag aelod o staff y tu allan i Wasanaeth Lles y Myfyrwyr, mae cyngor ar sut i fynd ati ynglŷn â hyn, neu ynglŷn â'r gefnogaeth a all fod ar gael ar gyfer amgylchiadau personol y myfyriwr, ar gael oddi wrth Wasanaeth Lles y Myfyrwyr (est. 1761).

7.4 O dan rai amgylchiadau efallai y bydd yn briodol i gynghori'r myfyriwr i ystyried ymadael dros dro.

7.5 Dylid trefnu trafodaeth ddilynol rhwng yr aelod o'r staff a'r myfyriwr ar gyfer dyddiad y cytunir arno gan y ddau a hynny heb fod yn ddiweddarach na phythefnos o ddyddiad y drafodaeth wreiddiol. Gellir ymestyn hyn os bydd y myfyriwr wedi dychwelyd adref neu os yw'n digwydd yn ystod cyfnod gwyliau.

7.6 Gyda'r rhan fwyaf o achosion, y gobaith yw y gellir datrys problemau yn anffurfiol yn ystod y cyfnod hwn ac y bydd myfyrwyr yn ymateb yn gadarnhaol, gan fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

7.7 Dylid rhoi nodiadau ynglŷn â'r drafodaeth ar Aladdin ac, os na fydd unrhyw bryderon pellach yn cael eu hamlygu yn y cyfamser neu ar ôl y cyfnod adolygu, ni fydd unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol.

7.8 Os na bydd myfyriwr yn gallu nac yn dymuno newid ei ymddygiad na chydweithredu â'r drefn neu'r cynllun gweithredu, dylid hysbysu'r myfyriwr y bydd yr achos yn symud i gam nesaf y polisi.

8 Pryderon Cyfredol/Parhaol (Cam Ffurfiol 1)

8.1 Os bydd y camau cychwynnol a amlinellir yn adran 7 uchod yn aflwyddiannus ac os bydd iechyd, lles neu ymddygiad myfyriwr yn parhau i beri pryder, mae'n bwysig bod y Polisi Addasrwydd i Fynychu yn cael ei weithredu yn ddiymdroi. Dylid gwneud hynny trwy ddefnyddio'r ffurflen gyfeirio sydd ar y we: http://www.aber.ac.uk/cy/toolkit/training-resources/resources-policies-procedures/fitnesstoattend/ Rhaid i ffurflenni cyfeirio gael eu llenwi'n drylwyr a'u hardystio gan Bennaeth yr Adran neu Bennaeth yr Athrofa Academaidd.

8.2 Mae'n eithriadol o bwysig mewn achosion brys, bod y weithdrefn a amlinellir yn adran 4 (uchod) yn cael ei dilyn.

8.3 Ar ôl derbyn y ffurflen gyfeirio, bydd Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn ei hystyried ar gyfer blaenoriaethu'r achos ac yn rhoi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer ystyriaeth, gan gyfeirio at asesiad o'r risg a'r adnoddau staffio sydd ar gael. Bydd Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn trefnu i gyfarfod y myfyriwr. Mae'n bosib y bydd Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn penderfynu o'r wybodaeth sydd ar gael bod angen gweithredu Cam 2 o'r Polisi ar unwaith.

8.4 Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig fod y Polisi Addasrwydd i Fynychu'r Brifysgol (Cam Ffurfiol 1) yn cael ei weithredu a bod gofyn iddo ddod i gyfarfod gyda Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr. Bydd y pryderon a nodwyd yn cael eu cyfleu i'r myfyriwr, gyda sylw dyledus i gyfrinachedd ac i ofynion y sefyllfa. Rhoddir gwybod i'r myfyriwr y gall ddod â'i diwtor personol, ei Fentor, rhiant, cyfaill neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr i'w ganlyn i'r cyfarfod hwn.

8.5 Cyn y cyfarfod, gall Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr geisio rhagor o wybodaeth gan y myfyriwr, yr aelod o'r staff sydd wedi ei gyfeirio neu eraill sydd wedi mynegi pryder ynglŷn â'r myfyriwr. Gyda chaniatâd y myfyriwr, gellir hefyd holi am dystiolaeth oddi wrth feddyg teulu'r myfyriwr neu bobl eraill sy'n gweithio yn y maes iechyd, neu feysydd sy'n gysylltiedig ag iechyd, sy'n adnabod y myfyriwr.

8.6 Yn y cyfarfod gyda Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr, bydd y pryderon a fynegwyd ynglŷn ag ymddygiad y myfyriwr yn cael eu hegluro i'r myfyriwr a chaiff y myfyriwr ei wahodd i gyflwyno sylwadau ar ei ddirnadaeth ef o'i ymddygiad/sefyllfa. Rhoddir cyngor i'r myfyriwr ynglŷn â chyfeirio at/cefnogaeth gan asiantaethau allanol/gwasanaethau mewnol ac ynghylch unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud. Rhoir ystyriaeth yn ogystal i gamau a all fod yn angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan y ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd, a gwerthusir y peryglon a all fod

yn gysylltiedig â pharhau i fod yn bresennol. Gall fod yn briodol i gynghori'r myfyriwr i ystyried ymadael dros dro.

8.7 Cytunir gyda'r myfyriwr ar gynllun gweithredu a fydd yn cynnwys lle mae hynny'n briodol: trefniadau ar gyfer cefnogaeth ychwanegol gan wasanaethau mewnol/asiantaethau allanol; manylion yn ymwneud ag unrhyw dystiolaeth atodol feddygol neu arall a all fod yn angenrheidiol; caniatâd i'r Brifysgol gysylltu â chyswllt brys penodol y myfyriwr os bydd pryderon o bwys yn ymddangos yn ddiweddarach yn unol â pholisi Prifysgol Aberystwyth. Bydd copi ysgrifenedig o'r cynllun gweithredu yn cael ei rannu gyda'r myfyriwr a chydweithwyr perthnasol eraill.

8.8 Trefnir cyfarfod i asesu cynnydd ar faterion y cytunwyd arnynt yn y cynllun gweithredu heb fod yn ddiweddarach na phythefnos o ddyddiad y cyfarfod gyda Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr. Gellir ymestyn hyn os bydd y myfyriwr wedi dychwelyd adref neu os yw'n digwydd yn ystod cyfnod gwyliau.

8.9 Os na bydd myfyriwr yn gallu nac yn dymuno newid ei ymddygiad na chydweithredu â'r drefn neu'r cynllun gweithredu, dylid hysbysu'r myfyriwr y bydd yr achos yn symud i gam nesaf y polisi, neu y dylai'r myfyriwr fod yn destun gweithdrefnau academaidd neu ddisgyblu.

9 Ymddygiad Aflonyddgar Eithafol, a/neu Bryderon Di-baid neu Sylweddol lle mae Perygl i Les, Diogelwch neu Gynnydd Academaidd y Myfyriwr ei hun neu bobl eraill (Cam Ffurfiol 2)

9.1 Bydd y penderfyniad i weithredu cam ffurfiol 2 y polisi hwn yn cael ei wneud gan Wasanaeth Lles y Myfyrwyr yn dilyn y cyfeiriad gwreiddiol neu wrth ddilyn camau gweithredu Cam Ffurfiol 1. Bydd y penderfyniad i weithredu Cam Ffurfiol 2 yn cael ei wneud ar sail awgrym cryf o ymddygiad aflonyddgar eithafol, a/neu bryderon di-baid neu sylweddol lle mae perygl i les neu ddiogelwch y myfyriwr neu eraill.

9.2 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gofyn i'r myfyriwr fynychu Asesiad Addasrwydd i Fynychu.

9.3 Mae'n bosib y bydd yr asesiad ar ffurf cynhadledd achos dan arweiniad Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd neu enwebai, ac yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o ar draws y Brifysgol, yn amodol ar amgylchiadau pob achos unigol. Gellir sicrhau tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth ategol arall ac mae'n bosibl y gofynnir am ganiatâd i gysylltu â chyswllt brys penodol y myfyriwr os bydd pryderon o bwys yn ymddangos.

9.4 Bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu fod y Polisi Addasrwydd i Fynychu'r Brifysgol (Cam Ffurfiol 2) yn cael ei weithredu a bydd y pryderon a nodwyd yn cael eu mynegi i'r myfyriwr, gan dalu sylw dyledus i gyfrinachedd a gofynion y sefyllfa. Gall y myfyriwr ddod â'i diwtor personol, ei fentor, rhiant, cyfaill neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr i'w ganlyn i unrhyw gynhadledd achos neu gyfarfod â Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr.

9.5 Eglurir i'r myfyriwr bod y cyfeiriad yn gwbl wahanol i Weithdrefnau Disgyblaethol y Brifysgol. Eglurir yn ogystal bod y Brifysgol yn argymell y ffordd hon o weithredu oherwydd bod un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:

- mae ymddygiad y myfyriwr yn tarfu ar eraill o'i gwmpas/chwmpas a bod y gefnogaeth a gynigiwyd i gynorthwyo'r myfyriwr wedi ei gwrthod;
- mae cefnogaeth wedi ei rhoi ond nid yw'r sefyllfa wedi gwella ac mae'r ymddygiad annerbyniol yn parhau;
- er gwneud addasiadau rhesymol a rhoi cefnogaeth addas mae ymddygiad y myfyriwr erbyn hyn y tu hwnt i gymhwysedd proffesiynol a grym statudol y Brifysgol i'w reoli;
- er gwaethaf darparu addasiadau rhesymol nid yw'r myfyriwr yn gallu gwneud cynnydd academaidd boddhaol, a byddai fel arall wedi ei wahardd/gwahardd o'i gwrs/chwrs;
- nid oedd y myfyriwr yn gallu nac yn dymuno ymgysylltu â'r broses.

10 Canlyniad yr Asesiad Addasrwydd i Fynychu

10.1 Gall yr asesiad benderfynu fel a ganlyn:

- mae'r myfyriwr yn gymwys i fynychu ac ystyrir bod yr achos wedi dod i ben a/neu dylid gweithredu gweithdrefnau disgyblu neu gynnydd academaidd yn achos y myfyriwr hwn;
- mae'r myfyriwr yn gymwys i fynychu, yn amodol ar rai telerau ac amodau yn cynnwys cyfnod penodol o adolygiad neu derfyn. Gall y telerau ac amodau hyn gynnwys argymhelliad i wahardd y myfyriwr o neuaddau'r Brifysgol dros dro);
- lle bo gofynion y cwrs academaidd yn caniatáu hynny, mae'n bosib yr ystyrir nad yw'r myfyriwr yn gymwys i fynychu ond efallai ei fod yn gymwys i astudio.
- nid yw'r myfyriwr yn gymwys i fynychu a dylid ei wahardd ar unwaith, ar sail ei iechyd, am gyfnod dros dro hyd nes bydd ei iechyd yn gwella. Wrth bennu cyfnod y gwaharddiad, ystyrir gofynion y cwrs, yr adeg o'r flwyddyn academaidd a rheoliadau cynnydd academaidd. Fel rheol ni fydd gwaharddiad dros dro yn hirach nag un flwyddyn academaidd yn y lle cyntaf.
- dylid gweithredu gweithdrefnau disgyblu neu gynnydd academaidd yn achos y myfyriwr hwn.

10.2 Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rhoddir ystyriaeth i unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu rhoi ar waith ac arferir y gofal a'r ystyriaeth ddyledus er mwyn gochel, hyd y gellir, gosod y myfyriwr mewn sefyllfa fwy bregus. Rhaid ymdrechu hyd yr eithaf i gyrraedd cytundeb gwirfoddol os oes modd.

10.3 Cyfrifoldeb Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr fydd traddodi canlyniad yr asesiad yn ffurfiol i'r partïon perthnasol, gan dalu'r sylw dyledus i gyfrinachedd.

10.4 Os yw ymddygiad y myfyriwr o'r fath a fyddai o dan amgylchiadau cyffredin wedi arwain at weithdrefnau disgyblu, dichon mai dyna fydd y ffordd fwyaf addas o weithredu hyd yn oed os oes tystiolaeth bod gan y myfyriwr faterion/broblem iechyd meddwl ddynodedig. Nid yw'r ffaith bod materion/anawsterau iechyd meddwl gan fyfyriwr yn

cyfyngu mewn unrhyw fodd ar y ddyletswydd gofal sydd gan y Brifysgol i'w myfyrwyr eraill. Dylai'r ddyletswydd gofal i fyfyrwyr gyda materion/phroblemau iechyd meddwl gael ei chydbwyso yn erbyn y ddyletswydd gofal i fyfyrwyr eraill a staff.

10.5 Mewn achos lle bydd myfyriwr yn cael ei ystyried yn anghymwys i fynychu ac yntau'n gwrthod tynnu allan yn wirfoddol o'i gwrs/chwrs astudio, gelwir ar y Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol yn unol â pholisi cyffredinol y Brifysgol ar atal i arfer pwerau i atal y myfyriwr (heb ragfarnu) ac i aildderbyn y myfyriwr yn unig pan fydd tystiolaeth o'i addasrwydd i ddychwelyd i astudio ar gael ac yn amodol ar y Polisi Addasrwydd i Ddychwelyd.

10.6 Os yw'r myfyriwr yn penderfynu ymadael dros dro yn wirfoddol, yng nghanol y broses addasrwydd i fynychu, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion yn ysgrifenedig er mwyn gallu diweddaru eu cofnod. Pan fydd y myfyriwr yn gwneud cais i ddychwelyd i astudio bydd y broses addasrwydd i fynychu yn ailddechrau.

11 Apeliadau

11.1 Mewn achos lle bydd myfyriwr yn gwrthod ymadael yn wirfoddol a lle bo Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn galw ar y Dirprwy Is-Ganghellor i arfer ei bwerau i atal y myfyriwr, gall y myfyriwr apelio'n ysgrifenedig yn erbyn penderfyniad yr asesiad i Ddirprwy Is-Ganghellor arall o fewn deg diwrnod o ddyddiad cyfathrebu canlyniad yr asesiad yn ysgrifenedig. Gellir apelio ar sail proses neu wybodaeth na allai fod yn hysbys pan wnaed yr asesiad.

11.2 Bydd Panel Apêl yn cynnwys Dirprwy Is-Ganghellor arall, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd a chynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, fel arfer yn gwrando'r apêl o fewn i 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r Brifysgol dderbyn yr apêl.

11.3 Mewn achos pan mae myfyriwr yn parhau yn anfodlon bydd ganddo/ganddi'r hawl i apelio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (www.oiahe.org.uk)

12 Cyngor a Chefnogaeth

12.1 Yn ystod pob cam ffurfiol o'r polisi hwn, dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr y gellir cysylltu ag Undeb y Myfyrwyr am gyngor a chynrychiolaeth. Bydd y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn gallu cynnig cyngor ar oblygiadau ariannol tynnu'n ôl, a bydd y Swyddfa Ffioedd Myfyrwyr yn hysbysu noddwr y myfyriwr bod y myfyriwr yn atal ei astudiaethau. Dylai myfyrwyr â statws Haen 4 gysylltu â Swyddfa Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth i gael cyngor am unrhyw oblygiadau fisa.

12.2 Mewn achos lle bo myfyriwr yn cael ei atal neu'n tynnu'n ôl dros dro yn wirfoddol ac yr ystyrir nad yw'n gallu diogelu ei hunan, mae'n bosib y bydd angen rhoi gwybod i'w cyswllt brys yn unol â gofynion Polisi Cyswllt Argyfwng y Brifysgol.

12.3 Mewn achos lle nad yw cyswllt perthynas agosaf/brys yn gallu bod yn rhan o'r trefniadau ymarferol (e.e. cynorthwyo'r myfyriwr i wneud trefniadau ar gyfer cael llety arall), bydd gwasanaethau cymorth y Brifysgol yn ymdrechu i ddarparu lefel resymol o gefnogaeth wrth gyflawni'r tasgau hyn. Mewn rhai achosion, dichon y bydd gofyn cysylltu ag asiantaethau allanol eraill (gan gynnwys llysgenadaethau neu wasanaethau cymdeithasol).

13 Cymorth i staff a myfyrwyr

13.1 Yn ystod unrhyw argyfwng brys, bydd y Gwasanaeth Lles yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr eraill a fu'n ymwneud â'r achos.

13.2 Tynnir sylw'r staff at y ddarpariaeth a wnaed gan y Brifysgol yn ei strategaeth ar gyfer staff sy'n cynorthwyo myfyrwyr sy'n mynd drwy argyfwng personol. https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/theuniversity/policies/studentsupport/cefnogi-staff-cefnogi-myfyrwyr.pdf

Fersiwn:	1.3	Dyddiad Cyhoeddi:	
Rheswm dros ddiweddaru:	*Gwelliannau i adlewyrchu strwythur adrannol newydd* Diweddaru gwybodaeth Chwefror 2016 Diweddaru gwybodaeth Gorffennaf 2017 Diweddaru gwybodaeth Mai 2018		
Cymeradwywyd:	Pwyllgor Cymorth Myfyrwyr 09.05.18 Bwrdd Academaidd 23.05.18	Dyddiad dod i rym: 23.05.18	
Rhanddeiliaid Eraill:	SAACh		

Cyswllt:	Caryl Davies, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd ccd@aber.ac.uk